**COFNODION CYNGOR BRO LLANGELER 31 – 07 – 2023**

Cofnodion Cyfarfod Misol Nos Lun Gorffennaf 31ain 2023 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre

1. **07/23 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Richard Evans Cynghorwyr: Jamie Ayres, J Crossley, Aled Eynon, Ken Howell, Gethin Richards, Antoni Schiavone, Dilwyn Smith, Adrian Thomas. Clerc – Stella Jones.
**Hefyd yn Bresennol:** Cyfieithydd ac aelod o'r cyhoedd

Llongyfarchwyd Cyng A Schiavone ar enedigaeth ei ŵyr.

2. **07/23 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. A Edwards, D Evans, M Rees, E Samson, H Evans(C S G)

3. **07/23 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** ni fydd y Cyng K Howell yn cymryd rhan yn y drafodaeth yn adran Ceisiadau Cynllunio a ddaw gerbron y Cyngor.

4. **07/23 HEDDLU:** – PCSO J Kedward – nododd bod ychydig o drafferth wedi bod yn Velindre o blant yn curo a chicio drysau tai ac fe ddisgyblwyd y cyflawnwyr o flaen eu rhieni. Mae rhai plant o'r pentref wedi bod yn achosi anrhefn yng Nghastell Newydd ac wedi derbyn Llythyrau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

5. **07/23 COFNODION:** i. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Mehefin 26ain 2023
Cynnig: Cyng Antoni Schiavone Eilio: Cyng Adrian Thomas

6. **07/23 MATERION YN CODI o'r COFNODION**
6.xx. Lês Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – *mae ymholiadau wedi cael ei gwneud i ganfod pwy sy'n berchen y tir ac mae'n debyg taw Adran Tai C S G sy'n ei berchen, ac hefyd mae 'r Cynghorydd Sir am wybod beth mae'nt am wneud a'r tir*
10.iii.05/21 Byrddau Llwybrau Gwlân – *gweler Adroddiad Pwyllgor*

7. **07/23 GOHEBIAETH:**
i. ebost – Llythyr o Ddiolch Cymdeithas Cae Chwarae Parc Puw
ii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 26/06/23 - 30/06/2023 – *cylchlythyrwyd*
iii. ebost – Hywel Dda - Holiadur Cydraddoldeb rhanbarthol yn gofyn am brofiadau o wasanaethau – cylchlythyrwyd
iv. ebost – CSG – Newyddion diweddaraf – *cylchlythyrwyd*
v. ebost – CSG – Public Path Order Consultation - Carmarthenshire (12/44) – ***mae'r cyngor yn cefnogi'r cais cytunwyd rhoi y mater o gadw'r llwybr yn glir ar Agenda'r Cyfarfod nesaf***
vi. ebost – SSAFA – Lythyr o ddiolch
vii. ebost – CSG – Y Cynnig i gyflwyno 20mya gorfodol ar ffyrdd cyfyngedig ac eithriadau 30mya – *cylchlythyrwyd*
viii. ebost – MGS – Gŵyl Canol Dre 8/7/23 – *cylchlythyrwyd*
ix. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 03/07/23 - 07/07/2023 – *cylchlythyrwyd*
x. ebost – Calon Hearts – Dyddiadau Sgrinio Calon – *cylchlythyrwyd*
xi. ebost – Cylchlythyr CIC Hywel Dda – *cylchlythyrwyd*
xii. ebost – Versus Arthritis support group updates.– *cylchlythyrwyd*
xiii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 10/07/23 - 14/07/2023 – *cylchlythyrwyd*
xiv. ebost – ULlC – 20mya pecyn cymorth cyfathrebu ac ymgysylltu – *cylchlythyrwyd*
xv. ebost – CSG – Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023 i 2028 – *cylchlythyrwyd*
xvi. ebost – Llais Cymru - Dweud eich dweud ar sut y gall Llais weithio gyda phobl Cymru – *cylchlythyrwyd*
xvii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 17/07/23 - 21/07/2023 – *cylchlythyrwyd*
xviii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 24/07/23 - 28/07/2023 – *cylchlythyrwyd*
xix. ebost – CFf I Sir Gâr – Llythyr o ddiolch am y rhodd
xx. Action Fraud, London – *cadarnhau bod y twyll wedi digwydd a byddent yn ymchwilio*

8. **07/23 CYNLLUNIO**
**CEISIADAU CYNLLUNIO - YMGYNGHORI LLAWN**
**Cais Ymgynghori**
PL/06000 – Cadw ystafell ardd yng nghefn yr annedd fel y'i hadeiladwyd – Ty Gwyn, Velindre, Llandysul, SA44 5JF – *dim gwrthwynebiad*
PL/04634 – Penderfyniad ar yr Apêl – West View, Bancyffordd, Llandysul, SA44 4RY– *Cyngor yn siomedig ar ganlyniad yr apêl*
PL/06266 – Amrywiad o Amod 2(cynlluniau) ar Faterion wrth Gefn cymmeradwyaeth W/34664 (materion a gadwyd yn ôl ar caniatad amlinelliad W/19978) cynnwys cynigion turlinio diwygiedig a chynllun rheoli ecolegol – *Tir gyferbyn a* Gwyndaf, Velindre, Llandysul, SA44 5YF – *dim barn*

9. **07/23 MATERION ARIANNOL**
1. **a. Anfonebau**
i.TRYWYDD [caniatad wedi ei roi i'w dalu pan daw'r anfoneb]....................................................................£71.40
ii. HMRC ( *Gorffennaf )*..........................................................................................................£130.00
iii. YSGOL SUL ST LLAWDDOG [Hirio Neuadd ]...........................................................................................£8.75
[ *caniatad i'w dalu pan daw'r anfoneb i law*]

Cadeirydd ___________________________________ Dyddiad _______________________

iv. Ann James [awdito cyfrifon ]........................................................................................................£100.00
v. SSE[golau nadolig]........................................................................................................................£134.44
vi. Caniatad i dalu HMRC ym mis Awst – *caniatawyd*
Arian yn y Banc ar 10/07/2023.........................................................................................................£25,956.91

**b. S/O**
Cyflog y Clerk .............................................................................................................................. £520.00

**3. Apêl am Nawdd Ariannol**
Dim

**10. 07/23 MATERION ANGEN TRAFODAETH**
Dim

**11. 07/23 ADRODDIAD**
Byrddau Llwybrau Gwlân – *dangosodd Cyng J Ayres enghraifft o'r math o fap mae'n bwriadu creu ar gyfer pob bwrdd ynghyd ag enghreifftiau o sut byddai rhai adeiladau yn ymddangos ar y map. Mae pob un o'r pwyllgor yn gweithio ar ysgrifennu pytiau ar bob ardal. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod eto ym mis Medi.*

**12. 07/23 SYLWADAU'R CYNGHORWYR**
1. Clerc ar rhan Cyng M Rees – i. codwyd y mater o gyflwr yr hewl o Pentrecwrt i Bancyffordd – *Cyng K Howell i ddelio a hyn*
   ii. brigyn mawr yn sticio allan o'r clawdd ochr isaf sgwar Crossroads tuag at Blaenbuarthe.
2. Cyng G Richards – i. nododd bod Cyfarfod Blynyddol Parc Saron i'w gynnal ar y 3ydd o Fedi am 7yh yn Festri Saron.
3. Cyng A Schiavone – i. dwedodd bod yr hewl o Gapel Seilo lawr tuag at Ysgol Brynsaron mewn cyflwr difrifol mae fel petai yn dymchwel yng nghanol yr hewl.
4. Cyng A Thomas – i. angen trefnu bod rhywun yn dod i edrych ar olau nadolig Pont Tyweli gan nad oedd hanner ohonynt yn gweithio
   ii. trefnu i'r coed sy'n achosi problem gael eu torri lawr ym mis Medi

**13. 07/23 CYFARFOD NESAF**
Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf nos Lun Medi 25ain 2023 am 7.30yh yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh

__________________________________ Cadeirydd Dyddiad _________________________

.